# SL(6)391 – Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Rhif 2) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer tâl ac amodau cyflogaeth athrawon ysgol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r Gorchymyn yn gwneud hynny drwy roi effaith i:

- Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol (diwygiedig) – Medi 2023 (**Dogfen 2022**), a

- Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol (**Dogfen 2023**).

Mae Dogfen 2022 yn gwneud newidiadau ar gyfer y flwyddyn 2022/23 gan ddarparu cyfrifiadau sydd wedi'u diwygio ychydig o'r cyfandaliad heb fod yn gyfunedig o 1.5% a oedd yn rhan o ddyfarniad cyflog 2022/23. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "*Defnyddiwyd methodoleg ddiwygiedig i gyfrifo'r taliad heb fod yn gyfunedig o ganlyniad i sylwadau a wnaed gan undebau athrawon. Mae'r fethodoleg ddiwygiedig yn arwain at gynnydd bach iawn ym mhob achos."* Bydd y newidiadau hyn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 1 Medi 2022 a 31 Awst 2023.

Mae Dogfen 2023 yn gwneud newidiadau eraill i gyflog ac amodau. Mewn ymateb i drafodaethau ag undebau athrawon a chyflogwyr, o 1 Medi 2023 ymlaen bydd codiad o 5% yn cael ei gymhwyso i bob pwynt graddfa cyflog a lwfans. Mae Dogfen 2023 hefyd yn darparu eglurhad ar dasgau gweinyddol na ddylid eu cyflawni fel mater o drefn gan athrawon (gweler paragraff 51.9 ac Atodiad 3 o Ddogfen 2023).

Daw'r Gorchymyn i rym ar 28 Hydref 2023, felly mae'r newidiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaeth ôl-weithredol. Caniateir darpariaeth ôl-weithredol o'r fath o dan Ddeddf Addysg 2002, h.y. y Ddeddf y mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud oddi tani.

Cyhoeddodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, ddatganiad ysgrifenedig ar y Gorchymyn ar 5 Hydref 2023.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi bod y Gorchymyn hwn yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i bryderon ynghylch cyflog ac amodau gwaith athrawon yng Nghymru. Rydym hefyd yn nodi'r canlynol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> *Bydd yr opsiwn hwn yn bodloni ymrwymiadau a gytunwyd arnynt yn flaenorol mewn perthynas â chyflog ac amodau athrawon, drwy weithredu dyfarniad Blwyddyn 2 o 5% o fis Medi 2023 a darparu eglurder ar dasgau clerigol a gweinyddol na ddylai athrawon eu cyflawni'n rheolaidd. Mae'r cytundeb eisoes wedi helpu i osgoi camau diwydiannol pellach a gymerir gan undebau athrawon gan leihau'r tarfu posibl ar addysg pobl ifanc. Mae'n bosibl y byddai hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar gadw athrawon yng Nghymru a denu athrawon newydd gymhwyso i'r proffesiwn yng Nghymru. Gallai'r eglurhad o'r sefyllfa statudol na ddylai fod yn ofynnol fel mater o drefn i athrawon ymgymryd â thasgau gweinyddol, clerigol a sefydliadol helpu i wella effeithlonrwydd ysgolion ac osgoi llwyth gwaith diangen i athrawon."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**10 Hydref 2023**